# Adnodd yn seiliedig ar bwnc

# **Trafnidiaeth**




Eco-Schools
Eco-Sgolion

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Gwybodaeth gefndirol

Ar draws y byd, mae pobl yn defnyddio dulliau teithio gwahanol, yn cynnwys cerdded, ceir, beicio, bysiau, tacsis, trafnidiaeth gymunedol, trenau, tryciau a faniau, cychod ac awyrennau. Boed i gyrraedd yr ysgol, gwaith neu siopau, mynd ar wyliau neu ymweld â ffrindiau a theulu neu symud nwyddau bob dydd fel bwyd a dillad a nwyddau eraill o un lle i'r llall, rydym yn dibynnu ar drafnidiaeth i gadw ein bywydau yn symud. Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys ffyrdd, llwybrau beicio a lonydd beicio, rheilffyrdd a gorsafoedd, porthladdoedd, harbyrau a meysydd awyr y mae angen eu cynnal a'u diweddaru i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'w diben ac effeithlon.



# Safbwynt hinsawdd

Mae llosgi tanwyddau ffosil i bweru ein cerbydau yn gyfrifol am ryddhau nwyon tŷ gwydr sy'n cyfrannu'n sylweddol at newid yn yr hinsawdd. Gyda pherchnogaeth ceir yn rhatach a mwy hygyrch erbyn hyn, mae lefel y traffig ar ein ffyrdd wedi cynyddu. Mae trafnidiaeth yn gyfrifol am 17% o allyriadau carbon yng Nghymru, gyda defnydd preifat o geir yn gyfrifol am fwy na hanner.

Mae allyriadau o gerbydau yn cyfrannu'n sylweddol at lygredd aer sy'n her wirioneddol i iechyd y boblogaeth, gyda'r bobl fregus mewn cymdeithas ymhlith y rheiny sy'n wynebu'r risg uchaf o lygredd aer yn niweidio ansawdd byd a byrhau rhychwant oes i rai hyd yn oed.

Mae 'Strategaeth Drafnidiaeth Newydd ar gyfer Cymru' Llywodraeth Cymru yn ystyried y dyletswyddau ar y Llywodraeth i fynd i'r afael ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol a'r amgylchedd. Ei gweledigaeth yw darparu 'system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon,' ac mae'n addo cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn ogystal â lleihau'r angen i ddibynnu ar ddefnydd preifat o geir i gyflawni'r targed Cenedl Ddiwastraff erbyn 2050.

# Siart Far Ddynol
## Cyfnod Sylfaen

## Sut ydym yn teithio i'r ysgol?

Mae Arolwg Trafnidiaeth Ysgol Eco-Sgolion a'r Cynllun Teithio dilynol yn rhan bwysig o werthuso sefyllfa deithio eich ysgol a chymuned, i amlygu unrhyw faterion a dod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy. Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd ymarferol o ddefnyddio mathemateg go iawn i gynnwys plant yn y gwaith o gasglu a dehongli'r data.

## Deunyddiau sydd eu hangen:

- Llinellau maes chwarae (cwrt pêl-rwyd neu debyg) neu 2 bolyn
- Conau addysg gorfforol neu smotiau rwber
- Sialciau maes chwarae
- Arwyddion trafnidiaeth i ddangos sut mae plant yn cyrraedd yr ysgol - cerdded, bws, car, beic, tacsi, trên
- Cardiau rhifau mawr/amlinellau rhifau mawr/papur sgrap a phin marcio







## Cam 1



Gosodwch raffau i greu'r echelinau ar gyfer y siart far neu dewch o hyd i leoliad lle mae marciau'r maes chwarae yn dod at ei gilydd ar ongl sgwâr.

## Cam 2





Gofynnwch i'r plant ffurfio llinell y tu ôl i bob llun o ddull teithio ar yr echelin lorweddol i ddangos sut maent yn teithio i'r ysgol. Gofynnwch i'r plant eistedd i lawr os yw'n ymarferol fel y gallant weld beth sy'n digwydd yn haws.

## Cam 3



Cyfrifwch y plant ym mhob colofn/llinell gyda'i gilydd a nodwch (neu ysgrifennwch gyda sialc) y rhif cyfatebol ger yr echelin fertigol. Edrychwch a all y plant ragweld sawl fydd yn y rhes ar gyfer y dull teithio nesaf - mwy neu lai? Sicrhewch fod pellter cyfartal rhwng y plant a'u bod mewn rhes gyda rhif a dull teithio.

## Cam 4




Rhowch smotyn neu gôn i bob plentyn a gofynnwch iddynt ei osod wrth eu traed. Fel arall gallech roi sialc i bob plentyn luniadu o amgylch eu traed i adael cylch ar y maes chwarae i nodi eu lle. Fesul rhes gofynnwch i'r plant symud i ffwrdd o'r siart yn ofalus a dylai fod gennych bictogram y gallwch ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau i'r plant am sut maent yn teithio i'r ysgol. Pa ddull teithio sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf/lleiaf a pham? Ac yn y blaen. Cofiwch dynnu lluniau neu wneud fideo i ychwanegu at eich tystiolaeth Cynllun Teithio Eco-Sgolion.

## Cam 5

Trafodwch sut mae'r plant yn teithio i'r ysgol, pa ddulliau teithio sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd a pham. Cofiwch, efallai nad oes gan blant unrhyw ddewis, ond pe gallent ddewis pa opsiwn allai fod orau iddynt (yn nhermau iechyd corfforol, diogelwch, arian a'r amgylchedd.)

### Trafodaeth ddilynol

Sut y gallwch annog yr ysgol a'r gymuned ehangach i newid y math o drafnidiaeth a ddefnyddiant, cerdded teithiau byr yn hytrach na gyrru a siopa'n lleol yn hytrach na gyrru allan o'r dref?

Gofynnwch i'r plant gofnodi eu syniadau ynghylch trafnidiaeth gynaliadwy yn defnyddio map meddwl - meddyliwch am fuddion ymarfer corff ac ansawdd aer gwell i'n hiechyd, buddion amgylcheddol llai o danwyddau ffosil yn cael eu llosgi felly llai o allyriadau carbon, ffyrdd mwy diogel i blant sy'n teithio i'r ysgol, buddion ariannol i deuluoedd o beidio â defnyddio'r car.

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Meysydd Dysgu a Phrofiad -** Mathemateg a Rhifedd

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus

Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

**Maes Dysgu a Phrofiad -** Y Dyniaethau

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

**Maes Dysgu a Phrofiad -** Iechyd a Llesiant

**Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:**

Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill

# Camau nesaf a syniadau eraill

- Mapiwch daith y plant i'r ysgol
- Trefnwch ddigwyddiad wythnos cerdded i'r ysgol
- Gwnewch boster, pamffled neu fideo yn annog teithio llesol i'r ysgol - cerdded, beicio neu ddefnyddio sgwter
- Cynhaliwch weithdy cynnal a chadw beiciau
- Cynlluniwch sesiynau beicio yn yr ysgol (Cycling Proficiency)
- Cynhaliwch wersi diogelwch ar y ffyrdd
- Trefnwch fws cerdded
- Edrychwch ar https://www.sustrans.org.uk/for-professionals/education/ am syniadau teithio llesol
- Gofynnwch i'r plant, rhieni a staff yr ysgol wneud addewid i gerdded, beicio neu ddefnyddio sgwter ambell ddiwrnod o'r wythnos

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13